Y Comisiwn Etholiadol

# Rhoddion a benthyciadau i Aelodau Seneddol: canllaw byr i ffynonellau a ganiateir a dulliau rhoi gwybod

Mai 2010

Dim ond rhoddion a benthyciadau gwerth dros £500 y gall aelodau eu derbyn ar gyfer eu gweithgareddau gwleidyddol neu seneddol gan rai ffynonellau a leolir yn y DU yn bennaf. Rydym yn rheoleiddio cydymffurfiaeth â'r rheolau hyn.

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i Gofrestrydd Buddiannau Ariannol Aelodau am bob rhodd a benthyciad a gewch. Bydd y Cofrestrydd yn trosglwyddo'r wybodaeth berthnasol i ni.

Rhaid i aelodau roi gwybod i ni yn uniongyrchol os byddant yn dychwelyd rhodd neu'n dod â benthyciad i ben am nad yw'r rhoddwr/benthyciwr yn un a ganiateir.

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu'r rheolau ar yr hyn a ganiateir, a sut i roi gwybod i ni am unrhyw roddion neu fenthyciadau nas caniateir. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Canllaw Mewnol i'r Rheolau sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau.

## Beth sydd angen i chi ei wybod

### Cyflwyniad

Mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) yn caniatáu i Aelodau Seneddol dderbyn rhoddion a benthyciadau o ffynonellau penodol a nodir yn y Ddeddf (a elwir yn ffynonellau a ganiateir) yn unig.

Mae'r rheolau ar yr hyn a ganiateir yn berthnasol i bob rhodd a benthyciad dros £500.

## Beth sy'n cyfrif fel rhodd neu fenthyciad?

Os bydd eitem yn cael ei chynnwys o dan Gategorïau 4(b), 5, 6 neu 7 o'r Rheolau mewnol, a'i bod yn werth dros £500, mae'n debygol o fod yn rhodd o dan PPERA.

Dylid rhoi gwybod am fenthyciadau a gymerir ar gyfer eich gweithgareddau gwleidyddol neu seneddol o dan Gategori 10 o'r Rheolau Mewnol. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau credyd, a sicrwydd neu warantau a roddir ar eich rhan.

## Pa roddion a benthyciadau y gallaf eu derbyn?

Gallwch dderbyn costau rhesymol ar gyfer ymweliadau tramor o unrhyw ffynhonnell.

Dim ond os daw rhoddion a benthyciadau sydd dros £500 gan y canlynol y gallwch eu derbyn:

- Unigolyn sydd ar un o gofrestrau etholwyr y DU
- Cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU sy'n gwmni corfforedig yn un o aelod-wladwriaethau'r UE ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- Plaid wleidyddol gofrestredig
- Uned fasnach, cymdeithas adeiladu, cymdeithas lesiant neu gymdeithas ddiwydiannol a darbodus sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- Cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Gallwch hefyd dderbyn rhoddion gan fathau penodol o ymddiriedolaethau. Cysylltwch â ni i gael cyngor os bydd ymddiriedolaeth yn cynnig rhodd i chi.

## Beth sydd angen i mi ei wneud pan fyddaf yn cael rhodd neu'n cael cynnig benthyciad?

Mae gennych 30 diwrnod o ddyddiad cael rhodd i sicrhau bod y rhoddwr yn un a ganiateir a phenderfynu p'un a ddylech dderbyn y rhodd.

Os na allwch gadarnhau a oes ganddo ganiatâd, neu os na allwch nodi'r ffynhonnell, rhaid i chi ddychwelyd y rhodd o fewn y 30 diwrnod hynny. Os nad oes modd i chi ei dychwelyd i ffynhonnell ddienw, rhaid i chi ei hanfon atom ni, a chaiff ei thalu i'r Gronfa Gyfunol.

Os na wnewch hyn, efallai y bydd yn rhaid i chi fforffedu'r rhodd. Gallech hefyd fod wedi cyflawni trosedd.

Mae'n rhaid i chi gadarnhau a yw rhoddwyr yn rhai a ganiateir **cyn** i chi gael benthyciad. Os byddwch yn gweld eich bod wedi cael benthyciad gan ffynhonnell nas caniateir, cysylltwch â ni i gael cyngor ar unwaith.

## Sut galla i roi gwybod am rodd nas caniateir?

Mae angen i chi roi gwybod i ni o fewn 30 diwrnod o ddyddiad dychwelyd y rhodd, neu ei hanfon atom ni.

Dylech gwblhau Ffurflen RD1B, sydd ar gael ar ein gwefan yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/candidates-agents/regulated-donees

## Cofrestrau'r Comisiwn

Rydym yn cyhoeddi manylion rhoddion a benthyciadau sy'n creu cyfanswm o fwy na £1,500 o'r un ffynhonnell yn ystod yr un flwyddyn.

Rydym hefyd yn cyhoeddi manylion pob rhodd a benthyciad nas caniateir.

Nid ydym yn cyhoeddi cyfeiriadau cartref unigolion sy'n rhoddwyr neu'n fenthycwyr.

Rydym yn diweddaru ein cofrestrau bob mis, yn seiliedig ar y wybodaeth a gafwyd ar y Gofrestr o Fuddiannau Ariannol Aelodau, ac ar adroddiadau o roddion a benthyciadau nas caniateir a roddwyd i ni.

## Ble y gallaf gael rhagor o gyngor?

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am roi gwybod am roddion i'r Gofrestr o Fuddiannau Ariannol Aelodau, cysylltwch â'r Cofrestrydd ar 020 7219 3277.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am yr hyn a ganiateir, neu am roi gwybod am roddion neu fenthyciadau nas caniateir, cysylltwch â ni ar 020 7271 0616 neu pef@electoralcommission.org.uk